# Gwybodaeth Cofid-19 – yn gywir ar 3/5/2021

Diolch am ddewis ein Neuadd Bentref fel lleoliad eich digwyddiad – rydym wrth ein bodd i gael eich croesawu atom. Pwrpas y daflen hon yw rhoi gwybodaeth ac esbonio rhai o'r canllawiau sy'n rhaid inni eu dilyn er mwyn sicrhau fod pob defnyddiwr y Neuadd yn saff.

Ein swyddog diogelu Cofid-19 yw Steffan Job, a gellir cael gafael arno drwy ffonio 07484 297015 neu ebostio steff_job@hotmail.com. Teimlwch yn rhydd i gysylltu os oes unrhyw broblem, neu rhywbeth yn aneglur.

Rydym wedi asesu'r risg o ddefnyddio'r adeilad, ac rydym yn dilyn canllawiau'r llywodraeth ym mhob rhan o'r adeilad. Gweler y linc isod.

Gellir derbyn copi o'n asesiad risg drwy gysylltu â'r swyddog diogelu.

Drwy logi'r Neuadd, rydych yn cytuno i:

- Ddilyn canllawiau'r llywodraeth yn llawn yn eich cynllunio ar gyfer y digwyddiad (y mae'r pwyllgor yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth o hyn os oes angen).
- Fod yn ystyriol o'n cymdogion drwy sicrhau nad oes ysbwriel (yn enwedig masgiau) yn cael eu gollwng ar y llawr, na grwpiau mawr o bobl yn ymgynnull y tu allan y Neuadd.
- Wirio nad oes neb sy'n mynychu'r Neuadd yn dangos symptomau cofid-19 nac wedi cael eu gofyn i hunan-ynysu.
- Sicrhau fod pob person dros 11 oed yn gwisgo mwgwd (oni bai fod rheswm meddygol yn eu heithrio) tra yn y Neuadd.
- Sicrhau fod pob aelod o'ch grŵp yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y posteri yn y Neuadd yn ystod eich ymweliad (pellter 2m ayyb).
- Gadw rhestr o enw a rhif cyswllt pob person yn eich grŵp am bythefnos wedi'r digwyddiad (rhag ofn fod angen cysylltu drwy broses 'track and trace')
- Beidio gadael unrhyw offer/ysbwriel ar eich hol ar ddiwedd eich llogiad.
- I basio enw a manylion y swyddog diogelwch i'r system 'track and trace' os bydd rhywun yn eich grŵp yn derbyn prawf positif o Cofid-19 o fewn tri diwrnod i ddiwedd y digwyddiad yn y Neuadd.

Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y Neuadd yn lân, ac rydym yn diheintio pob arwyneb caled wedi pob defnydd o'r Neuadd. Ond rydym yn argymell fod pob grŵp yn sicrhau bod y Neuadd a'r offer a ddefnyddir yn cael ei di-heintio ganddynt cyn pob defnydd.

**Wrth logi'r Neuadd mae'r llogwr/llogwyr yn cytuno i gadw at y rheolau hyn.**